# LC1443

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/666) ac yn eu hailddeddfu gyda newidiadau. Y prif newidiadau yw newidiadau i reoliadau 5, 17, 48 a 49 ac i Atodlenni 1 a 3, sydd wedi'u hadolygu er mwyn gweithredu offerynnau Cymunedol sydd wedi dod i rym ers gwneud Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005.

### Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Gwelodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor ddrafft cynharach o'r Rheoliadau hyn, ac mae'r pwyntiau a nodwyd wedi eu cywiro yn y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Er bod yr Atodlenni wedi'u hadolygu i ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd bellach, cyfeirir at gymaint o Gyfarwyddebau, Rheoliadau a Phenderfyniadau fel bod deddfwriaeth Ewropeaidd bellach wedi'i gwneud wrth baratoi'r Rheoliadau hyn. Bydd angen cynnwys y rhain mewn deddfwriaeth bellach maes o law.

Fodd bynnag, wrth baratoi’r ddeddfwriaeth hon, derbyniodd Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 Gydsyniad Brenhinol a daeth i rym ar 8 Ionawr 2007. Bydd Adran 28 o’r Ddeddf honno’n caniatáu ar gyfer cyfeirio at ddeddfwriaeth Ewropeaidd fel "as amended from time to time". Unwaith y caiff yr arfer hwn ei fabwysiadu, bydd angen gwneud llawer llai o newidiadau i ddeddfwriaeth fel hon.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Chwefror 2007